## Adran 8. Casgliad

### 8.1 Sut y mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

### Ymgynghori ynglŷn â'r cynigion

Rhwng 30 Gorffennaf 2020 a 22 Hydref 2020, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus dwyieithog ar gynigion o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ('Deddf SUPP'). Roedd hyn yn cynnwys ceisio barn ar ba gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r difrod amgylcheddol o ganlyniad i weips gwlyb. Cawsom dros 3,500 o ymatebion, gan gynnwys barn gan unigolion â nodweddion gwarchodedig, grwpiau eirioli ar gyfer pobl ifanc a phobl anabl.  Cafwyd ymatebion hefyd gan elusennau amgylcheddol, siaradwyr Cymraeg, cynrychiolwyr gweithgynhyrchu a manwerthwyr, sefydliadau rheoli gwastraff, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a staff a chwsmeriaid Dŵr Cymru.

Fe wnaethom barhau i gasglu tystiolaeth trwy wneud gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu rhwng 2022 a 2025, gan geisio barn ar gynigion i gynnwys weips gwlyb o dan y ddarpariaeth yn y Ddeddf. Buom yn siarad â:

- Pobl anabl a grwpiau eirioli dros bobl anabl.
- Plant a phobl ifanc, gan gynnwys mudiadau cynrychioliadol, megis grŵp diddordeb arbennig newid yn yr hinsawdd Cymru Ifanc
- Elusennau sy'n helpu pobl sy'n cysgu allan a/neu bobl sy'n wynebu digartrefedd
- Sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol
- Cynrychiolwyr o'r sector addysg
- Cynrychiolydd o'r sector iechyd (sylfaenol ac eilaidd)
- Cynrychiolwyr o'r sector amaethyddiaeth
- Gweithgynhyrchwyr a chyrff masnach
- Cynrychiolwyr ac aelodau o sefydliadau manwerthu.

Fe wnaeth hyn lywio'r cynigion yn yr ymgynghoriad pedair gwlad a gynhaliwyd rhwng 14 Hydref a 25 Tachwedd 2023, a oedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Wrth ddatblygu Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025, rydym wedi ystyried yr holl safbwyntiau hyn.

**8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025 yn cynnig cyflwyno gwaharddiad ar gyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, gydag eithriad ar gyfer rhai sydd wedi eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol.

**Effeithiau cadarnhaol**

Daw'r effaith gadarnhaol fwyaf arwyddocaol a nodwyd yn y dadansoddiad o gael gwared ar ffibrau plastig a microblastig o'r amgylchedd. Mae hyn yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i 'ddeddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel' ac 'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'. Yn y tymor hir, disgwylir y bydd cael gwared ar y ffynhonnell hon o ficroffibrau amgylcheddol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fioamrywiaeth drwy helpu i gyflawni Amcanion un a chwech yng Nghynllun Adfer Natur Cymru.

Nododd ein dadansoddiad hefyd ostyngiad mewn allyriadau cyfwerth â charbon deuocsid (Co2e, mesur o botensial cynhesu byd-eang) o oddeutu 1.7 i 2.1 Co2e fesul tunnell o ddeunydd crai, o gynhyrchu weips gwlyb wedi'u gwneud o fisgos (o bren) yn hytrach na phlastig. Mae newid yn yr hinsawdd yn peri risg critigol o ran colli bioamrywiaeth. Mae gwybodaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol Meddyginiaeth yn amlinellu sut y gall newid yn yr hinsawdd effeithio'n negyddol ar allu rhywogaethau i hela, osgoi ysglyfaethwyr ac atgenhedlu, gan effeithio ar fioamrywiaeth.

Canfuwyd bod buddion eraill i blant a phobl ifanc. Drwy'r gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, daeth yn amlwg eu bod yn deall yr effaith gadarnhaol y mae eu gweithredoedd a'u penderfyniadau yn ei gael ar lygredd plastig. Roedden nhw'n awyddus i ddatblygu a hyrwyddo ymddygiadau mwy cynaliadwy a deall manteision defnyddio dewisiadau amgen i blastigau a/neu gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Roedden nhw hefyd yn deall bod effaith tynnu plastigau o'r amgylchedd yn nod hirdymor ac y byddant hwy a chenedlaethau'r dyfodol yn cael budd allweddol o'r cynnig hwn.

Canfuwyd bod y cynigion hefyd yn darparu manteision diwylliannol i unrhyw un sy'n defnyddio mannau gwyrdd Cymru ar gyfer gweithgareddau hamdden. Bydd cael mannau gwyrdd o safon i gefnogi hyn o fudd i bawb sy'n byw, yn gweithio yng Nghymru neu'n ymweld â Chymru. Canfuwyd bod presenoldeb sbwriel yn yr amgylcheddau hyn yn effeithio'n andwyol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl. Canfuwyd hefyd bod llai o lygredd plastig yn yr amgylchedd o fudd i dwristiaeth, elfen allweddol o economi Cymru, gan sicrhau manteision economaidd pellach.

**Effeithiau Negyddol**

Yr effaith negyddol fwyaf arwyddocaol oedd y costau economaidd i fusnesau sy'n cynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Roedd tri gwneuthurwr weips gwlyb yng Nghymru, wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru. Fe wnaethom gysylltu â'r cwmnïau hyn a chynrychiolwyr y sector yn ystod y gwaith o ddatblygu polisi i fireinio'r cynnig hwn a phenderfynu ar eu costau. Yn gyffredinol, disgwylir i'r rheoliadau arfaethedig arwain at lai o elw i weithgynhyrchwyr wrth iddynt beidio â chynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar gyfer marchnad defnyddwyr y DU mwyach (colled amcangyfrifedig o £33.44m dros y cyfnod arfarnu 10 mlynedd). Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan enillion elw disgwyliedig o £15.04m o werthu dewisiadau amgen nad ydynt yn cynnwys plastig gan arwain at golled net o £18.4m i gynhyrchwyr weips gwlyb dros y cyfnod hwn.

Canfu'r dadansoddiad y gallai rhai cynhyrchwyr eisoes weld gostyngiad mewn elw yn dilyn newid yn ymddygiad defnyddwyr a mwy o bwysau ar fanwerthwyr i newid i ddewisiadau amgen diblastig. Yn dilyn cyhoeddi polisi'r pedair gwlad ym mis Ebrill 2024 i wahardd gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ledled y DU, cyhoeddodd un cynhyrchydd yng Ngogledd Cymru bod ei safle gweithgynhyrchu yn cau.

Soniwyd am effeithiau negyddol posibl eraill wrth ymgysylltu â phobl anabl a gofalwyr. Codwyd pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn prisiau ac mewn perthynas â phosibilrwydd perfformiad is dewisiadau amgen diblastig. Gan fod rhai manwerthwyr mawr eisoes wedi trosglwyddo i werthu weips gwlyb diblastig yn unig, efallai bod llawer o ddefnyddwyr eisoes wedi newid heb wneud penderfyniad ymwybodol. Felly, er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae eithriad ar gyfer weips gwlyb sydd wedi eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol wedi'i gynnwys yn y cynigion hyn.

Mewn perthynas â chynnydd mewn prisiau, canfu dadansoddiad, os yw gweithgynhyrchwyr yn dewis cynyddu prisiau sydd wedyn yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr, disgwylir i unrhyw gynnydd fod yn fyrhoedlog. Mae swyddogion wedi nodi, yn unol â hyn, bod prisiau pecynnau wedi gostwng ers i'r gwaith cychwynnol gael ei wneud yn 2021.

Dylid nodi hefyd fod busnesau'n cyflenwi weips i'w gilydd y tu allan i gwmpas y cynnig hwn (gweler 8.3b isod).

#### 8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

### a) yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant

Mae'r rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn nifer o ffyrdd rhyng-gysylltiedig.

Trwy leihau llygredd plastig o ficroffibrau sy'n cael eu rhyddhau o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, bydd y polisi yn cyfrannu at **Gymru wydn** trwy leihau effaith y llygryddion hyn ar ecosystemau a bioamrywiaeth. Mae hyn yn eu helpu i fod yn iach fel y gallant gefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol gyda'r cyfle gorau i allu addasu i newidiadau fel newid yn yr hinsawdd.

Mae'r rheoliadau arfaethedig hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr.

Mae llai o ficroblastig amgylcheddol yn lleihau faint a all fynd i mewn i'r gadwyn fwyd anifeiliaid a dynol, gan leihau'r potensial ar gyfer bwyta micro-organebau neu docsinau cemegol a all gronni ar ronynnau plastig. Mae hyn yn cyfrannu at **Gymru iachach** trwy gyfrannu at gymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl drwy helpu pobl i ddewis opsiynau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol a datblygu ymddygiadau mwy cynaliadwy trwy leihau plastig amgylcheddol.

Bydd hyn yn cyfrannu at ein nodau ehangach o ddatblygu Cymru sy'n **gyfrifol yn fyd-eang**, drwy leihau baich byd-eang llygredd plastig a microblastig. Mae'r gostyngiad disgwyliedig mewn nwyon tŷ gwydr o weithgynhyrchu llai o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar gyfer marchnad y DU hefyd yn cyfrannu at y nod hwn, gan fod newid yn yr hinsawdd yn her fyd-eang.

Mae diogelu ecosystemau naturiol a bioamrywiaeth yn gwella **cyfalaf diwylliannol Cymru** ac yn cefnogi gweithgareddau awyr agored. Wrth ddatblygu'r polisi a'r rheoliadau hyn, rydym wedi cyfathrebu a chlywed cyfraniadau gan bobl yn yr iaith Gymraeg, gan sicrhau fod y **Gymraeg yn gallu ffynnu**.

Wrth i Gymru droi ei chefn ar gynhyrchion plastig untro tafladwy, mae cyfleoedd yn codi i fusnesau Cymru arloesi a datblygu dewisiadau amgen cynaliadwy yn lle'r cynhyrchion plastig a ddefnyddiwn heddiw (**Cymru lewyrchus**).

Gyda'i gilydd, gellir dadlau bod newid yn yr hinsawdd a llygredd plastig a microblastig yn ddau o'r heriau amgylcheddol mwyaf sy'n ein hwynebu heddiw. Mae'r cynnig hwn yn cyfrannu tuag at fynd i'r afael â'r ddau.

**b) yn osgoi, lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nodwyd rhai effeithiau negyddol yn y dadansoddiad. Nododd y dadansoddiad bryderon am effaith bosibl ar bobl sy'n defnyddio weips gwlyb i helpu i reoli cyflwr iechyd neu anabledd. Fodd bynnag, er mwyn helpu i liniaru hyn, rydym wedi cynnwys eithriad ar gyfer weips gwlyb sydd wedi eu dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol.

Ein bwriad yw cydbwyso'r bwriad polisi i gyfyngu ar argaeledd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i ddiogelu'r amgylchedd rhag eu gwaredu amhriodol tra'n sicrhau eu bod ar gael yn barhaus lle nad yw’r dewisiadau amgen yn addas, neu lle nad oes dewisiadau amgen ar gael.

Dylid nodi hefyd nad yw weips arbenigol a ddefnyddir mewn prosesau diwydiannol lle nad yw weips amgen yn addas neu lle nad oes weips amgen ar gael hefyd y tu allan i gwmpas y cynnig hwn. Dim ond gwerthiant weips i ddefnyddwyr y bwriedir i'r rheoliadau o dan Ddeddf SUPP ei gwmpasu.. Mae hyn yn golygu y gall busnesau barhau i werthu weips sy'n cynnwys plastig i'w gilydd, gan osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar ddiwydiannau sy'n defnyddio'r weips hyn.

Er mwyn helpu i liniaru'r effaith ar fusnesau sy'n cynhyrchu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, cynigir cyfnod pontio o 18 mis.

### 8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Ein nod polisi yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir gan lygredd plastig a microblastig, yn enwedig yn ein hafonydd a'n moroedd, oherwydd bod weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau yn cael eu gwaredu mewn ffordd amhriodol.

- Annog pobl i symud tuag at opsiynau amgen y gellir eu hailddefnyddio a/neu opsiynau diblastig.

- Cefnogi'n hamcan strategol ehangach i fynd i'r afael â'r diwylliant gwastraffus drwy annog pobl i newid eu hymddygiad mewn perthynas â defnyddio cynhyrchion untro.

Ein bwriad yw cynnal adolygiad ôl-weithredu o Ddeddf SUPP heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym, hynny yw ym mis Hydref 2023. Os cânt eu cymeradwyo, bwriedir i'r cynigion hyn ddod i rym dair blynedd ar ôl y dyddiad hwn (Rhagfyr 2026). Yn dibynnu ar yr adeg y cynhelir yr adolygiad ôl-weithredu, rhagwelir y bydd y cwmpas yn cynnwys weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau, hynny yw ar ôl 2026.

Yn absenoldeb manyleb ffurfiol ar gyfer cwmpas yr adolygiad hwn, rhagwelir y byddai hyn yn cynnwys:

- Nodi a gwerthuso'r effeithiau mae'r ddeddfwriaeth wedi'u cael ar y defnydd o weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau ac ymddygiad cysylltiedig defnyddwyr yng Nghymru.

- Nodi a gwerthuso pa effeithiau y mae’r ddeddfwriaeth wedi’u cael ar fusnesau yng Nghymru.

- Nodi a gwerthuso i ba raddau mae'r ddeddfwriaeth wedi llwyddo i annog symud i gynhyrchion amgen a/neu gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.

- Nodi, lle bo hynny'n bosibl, a gwerthuso i ba raddau mae'r ddeddfwriaeth wedi effeithio ar leihau effeithiau amgylcheddol weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

Bwriedir sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o effeithiolrwydd y mesurau lliniaru a nodir uchod.